PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 14 CHWEFROR 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mitchell(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Aubrey, Awan, Clark, Chris Davis, Keith Jones a/ac Darren Williams |

62 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Roedd ymddiheuriadau wedi'u derbyn gan y Cynghorydd Hill-John. Dywedodd y Cynghorydd Awan y byddai angen iddo adael y cyfarfod am 6.30pm.

63 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

64 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

65 : CYNIGION Y GYLLIDEB DDRAFFT 2017/18

*Trosolwg Corfforaethol*

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey, Aelod Cabinet dros Berfformiad a Gwasanaethau Corfforaethol, Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ac Ian Allwood, Pennaeth Cyllid.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghrydd Hinchey i wneud datganiad a dywedodd y mae am ddiolch i swyddogion am eu gwaith yn hyn o byth. Nododd fod y cynigion yn cael eu cyflwyno'n gynt nag o'r blaen; mae'r amser wedi'i ddefnyddio i waredu risgiau a galluogi cyfarwyddiaethau i weithio ar gynllunio arbedion ac asesiadau risg. Defnyddiwyd Holi Caerdydd ym misoedd yr haf yn ogystal ag ymgynghoriad ar y gyllideb; roedd mwy na 6500 o ymatebion wedi'u derbyn sy'n cymharu'n dda â dinasoedd craidd eraill. Gan gyfeirio at ardaloedd Cymdogaeth, y llynedd roedd 4 allan o 6 wedi ymateb o gymharu â 5 allan o 6 eleni. Dywedodd y Cynghorydd Hinchey fod hyn o ganlyniad i ymgysylltu gwell â chymunedau.

Dywedwyd wrth yr Aelodau nad oedd arbed arian yn haws eleni ac y byddai llymder yn broblem am blynyddoedd i ddod.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar y Cynigion Cyllideb Drafft 2017/18. Yna gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau a oedd ganddynt gwestiynau a sylwadau:

- Gan gyfeirio at yr ymgynghoriad, gofynnodd yr Aelodau pa wersi sydd wedi'u dysgu ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod nifer sylweddol o ymatebion wedi'u derbyn eleni a'i fod yn falch bod ardaloedd gan gynnwys Llanrhymni wedi ymateb. Esboniodd fod Swyddogion wedi mynd i gymunedau i ymgysylltu â phobl eleni. Roedd canlyniadau Holi

Caerdydd ac Ymgynghoriad y Gyllideb wedi cyflwyno themâu tebyg megis y strydlun a glanweithdra strydoedd, oedd yn flaenoriaethau a rannwyd rhwng y Cyngor a'r cyhoedd a'i bod yn bwysig, mewn amseroedd o lymder, i weithio mewn cydweithrediad gyda'i gilydd.

- Gofynnodd yr Aelodau am themâu cyllideb 2017/18, a yw themâu megis masnacheiddio yn agos at ddisbyddu. Dywedodd yr Aelod Cabinet mai technoleg oedd y prif fater gan ei fod yn dod â llawer o fanteision, megis Cored Radur, technoleg o fewn cerbydau ar gyfer cerbydau gwastraff, mae gwelliannau mewn gweithio hyblyg wedi golygu cydbwysedd llawer gwell rhwng bywyd a gwaith i gyflogeion. Ychwanegodd fod y Pwyllgor Archwilio Cyhoeddus wedi hoffi yr hyn sydd wedi'i weithredu hyd yn hyn.

- Nododd yr Aelodau y cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor o 3.7% a gofynnon nhw sut cymharodd hyn ag Awdurdodau Lleol eraill a sut gellir ei barhau mewn yn y dyfodol. Dywedodd yr Aelod Cabinet mai'r pedwerydd isaf o'r 22 Awdurdod Lleol o ran cynyddiadau yn y Dreth Gyngor oedd Caerdydd y llynedd; ychwanegodd y byddai Treth Gyngor y dyfodol yn cael ei phennu gan Gynghorau'r dyfodol.

- Gan gyfeirio at Farchnad Caerdydd a'r buddsoddiad arfaethedig, gofynnodd yr Aelodau a gafodd unrhyw incwm ei greu gan ddeiliaid stondin ar gyfer hyn. Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai creu incwm gan ddeiliaid stondin yn mynd pe na bai dim fuddsoddiad; gyda buddsoddi gallai fod yn bosibl cynyddu incwm gan y farchnad. Roedd swyddogion wedi edrych ar farchnad Belffast ac maent wedi amrywio i berfformiadau Opera ac agoriadau nos, sydd i gyd yn ddewisiadau a gaiff ei harchwilio yng Nghaerdydd.

- Nododd yr Aelodau y 10 miliwn ar gyfer gofal cartref a cheision nhw eglurhad ar hyn. Dywedodd swyddogion mai ar gyfer y cyflog byw cenedlaethol oedd hyn, ac esbonion nhw fod tair lefel: Yr isafswm cyflog, y Cyflog Byw Cenedlaethol ac yna'r Cyflog Byw Gwirfoddol y mae Caerdydd yn dewis ei dalu, yn rhan o ymrwymiad y Cyngor i hyn, rhaid i Gaerdydd annog ei gyflenwyr a darparwyr i wneud yr un peth er na ellir ei orfodi ac nad yw'n ofyniad hanfodol mewn contractau. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet mai dyna mae'r Cyngor yn talu ei gyflogeion ac asiantaethau ei hun a'i fod yn annog partneriaid i wneud yr un peth.

*Portffolio Trafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd*

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ramesh Patel, Aelod Cabinet dros Drafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd; Andrew Gregory, Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas, Matt Wakelam, Pennaeth Seilwaith a Gweithrediadau, Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ac Ian Allwood Pennaeth Cyllid i'r cyfarfod.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ar gynigion ar gyfer cyllideb Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau'r Ddinas sy'n berthnasol i'r Portffolio Trafnidiaeth, Cynllunio a Chynaliadwyedd, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau:

- Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar y cynllun synwyryddion parcio gafodd ei dreialu ddwy flynedd yn ôl. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei fod yn gynllun arloesol iawn lle y mae gan ddefnyddwyr App ar eu ffôn clyfar sy'n gallu eu helpu i ddod o hyd i le parcio yn y ddinas sy'n lleihau tagfeydd, allyriadau a gwella ansawdd awyr. Dywedodd swyddogion fod y cynllun peilot wedi'i lansio ond eu bod yn aros am gytundeb llawn i'w roi ar waith mewn ardaloedd allweddol ledled y ddinas; roedd sylw cadarnhaol gan y wasg wedi'i dderbyn ledled y byd hyd yn hyn; roedd y cwmni yn gweithio i wella ymarferoldeb yr App yn barod i'w gyflwyno fel y mae'n cynnwys yr holl fannau parcio yn y ddinas, nid dim ond mannau parcio ar y stryd a byddai hefyd yn cynnwys gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y parthau 20mya a gofynnon nhw a yw unrhyw waith wedi'i wneud i gael gwybod a fyddai modd gweithredu'r cynlluniau hyn bob blwyddyn. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod llawer o sylw da wedi'i dderbyn gan y wasg ar yr hyn sydd wedi'i wneud hyd yn hyn; £150k oedd y ffigwr a restrwyd gan fod costau'n gysylltiedig â phenderfynu ar y parthau dynodi, hysbysiadau cyfreithiol ac ati., ac roedd ffyrdd o ariannu'n cael eu harchwilio. Ychwanegodd swyddogion ei bod yn rhan o gylch gwaith yr adran barcio ar yr amod ei bod wedi'i gymeradwyo'n wleidyddol a bod y cyhoedd am ei gael.

- Gofynnod yr Aelod pa ardaloedd sydd wedi'u neilltuo'n barthau 20mya a dywedwyd wrthynt fod map yn pennu'r safleoedd mwyaf addas yn cael ei ddatblygu; yn y Rhath/Cathays a Glan-Yr-Afon/Treganna oedd y cynllun peilot a fe'i rhoddir ar waith o Ganol y Ddinas tuag at allan gan dyna lle y mae'r pwysau mwyaf.

- Gofynnodd yr Aelod faint y mae'r cynllun peilot yn Cathays wedi costio a dywedwyd wrthynt fod Cathays wedi bod yn llawer rhatach - £60k ond mae'r costau'n dibynnau ar faint y safle, nifer y cyffyrdd/strydoedd ac ati. Tua 15% o gynllun arafu traffig lle cafodd byrddau uchel a newidiadau i ddraeniau eu gwneud oedd costau'r cynlluniau. Dywedwyd wrth yr aelod ward dros Cathays y byddai'n derbyn adroddiad gwerthuso ar y cynllun yn fuan.

- Ceisiodd yr Aelodau eglurhad ar yr arian sy'n cael ei neilltuo yn y gyllideb ar gyfer ceubyllau. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod £320k wedi'i ychwanegu'r llynedd ac yn cael ei ychwanegu eto eleni, yn ogystal â'r cynnydd yn y gyllideb sylfaenol. Gofynnodd yr Aelodau pa ganran o refeniw gorfodi parcio y gellir ei ddefnyddio i wrthbwyso'r costau hyn, dywedodd swyddogion fod hyn yn anodd ei ragweld gan y byddai refeniw yn sefydlogi wrth i bobl ddod i'r arfer â lonydd bysus.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at y Sgwâr Canolog a'r Hyb Trafnidiaeth Integredig, y ffigurau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad; a yw caniatâd cynllunio wedi'i gyflwyno ac a yw'r maes parcio NCP yn cael ei ddymchwel. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y gwaith i ddymchwel y maes parcio NCP wedi dechrau, mae'r Rhaglen Gyfalaf Ddrafft yn cynnwys y ffigurau, os cymeradwyir hyn byddai gwariant yn dechrau a dylai gwybodaeth am gyflwyniadau cais cynllunio gael eu ceisio yn ysgrifenedig i'r Aelod Cabinet yn uniongyrchol.

*Portffolio'r Amgylchedd*

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bob Derbyshire, yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, Matt Wakelam, Pennaeth Seilwaith a Gweithrediadau, Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ac Ian Allwood, Pennaeth Cyllid, i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Derbyshire i wneud datganiad a dywedodd fod newyddion gwell wedi bod o ran y setliad, bydd hyn yn galluogi cynigion mwy cadarnhaol.

Cafodd yr Aelodau gyflwyniad ar gynigion ar gyfer cyllideb y Gyfarwyddiaeth sy'n berthnasol i Bortffolio'r Amgylchedd ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau:

- Cyfeiriodd yr Aelodau at strydoedd byw a glanhau strydoedd dwys a gofynnon nhw pryd byddai hyn yn cael ei roi ar waith yn wardiau allanol i sicrhau cydraddoldeb. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod gan wardiau mewnol y ddinas y problemau mwyaf felly canolbwyntir ar y rheiny'n gyntaf oll; wrth symud ymlaen y bwriad oedd edrych ar faterion mewn wardiau allanol, lle y mae'r heriau ac a oes angen mwy o lanhau h.y. ar wynebau siopau. Ychwanegodd ei bod yn bwysig bod pobl yn tynnu sylw at unrhyw faterion y maent yn eu gweld y mae angen mynd i'r afael â nhw. Ychwanegodd swyddogion y byddai'r drydedd rownd ar wardiau mewnol y ddinas yn cael ei chwblhau erbyn diwedd mis Mawrth ac ar ôl hynny byddant yn dechrau ar yr wardiau allanol, byddai swyddogion yn ysgrifennu at Aelodau lleol yn fuan i nodi ardaloedd. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod ffigurau gorfodi wedi cynyddu gan 75% yn y chwarter diwethaf gan ail-fuddsoddwyd yn y timau; roedd y Cabinet wedi cefnogi buddsoddiad o £350k yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer y tîm glanhau, i lanhau wardiau mewnol yn ddwys a byddai'r timau hefyd yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â dail yn cwympo ac am barciau yn ystod amseroedd prysur megis gwyliau'r haf. Roedd swyddogion hefyd yn edrych ar ardaloedd/rowndiau'r timau i sicrhau eu bod y mwyaf effeithiol o ran effaith o ganlyniad i galwon.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at adnewyddu cyfleusterau chwaraeon a gofynnon nhw ai cyfleusterau'r Cyngor yw'r rhain. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod hyn yn wir oni bai bod ganddynt fuddiant mewn adeilad lle mae partner yn cynnig gwasanaeth ar ran y Cyngor; y bwriad oedd gwella safonau ledled y ddinas.

- Gofynnodd yr Aelodau am ddirwyon llygredd sŵn ac a yw'r arian a godir trwy'r rhain yn mynd yn ôl i'r gwasanaeth. Dywedodd swyddogion mai rhan o gylch gwaith y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir oedd hyn, defnyddiwyd yr arian a godwyd trwy ddirwyon llai ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol ac aeth yr arian a godwyd trwy ddirwyon mwy at Lywodraeth Ganolog ar ôl didynnu'r costau cyfreithiol.

*Gwasanaethau Cydweithredol a Masnachol*

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bob Derbyshire, yr Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, Tara King, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cydweithredol a Masnachol, Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ac Ian Allwood, Pennaeth Cyllid i'r cyfarfod.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Derbyshire i wneud datganiad a dywedodd taw dim ond 8 mis sydd wedi bod ers y newid a hyd yn hyn roedd wedi bod yn llwyddiannus iawn; roeddent wedi cyflawni popeth yr oeddent yn gobeithio amdano ac roedd bellach fwy o hyder ynddo wrth iddo fynd ymlaen.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau ar feysydd y Gwasanaethau Cydweithredol a Masnachol sy'n berthnasol i Bortffolio'r Amgylchedd, ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y gwasanaeth rheoli plâu a dywedwyd wrthynt eu bod wedi prynu gwasanaethau allanol yn y gorffennol a'u bod bellach yn defnyddio gwasanaethau mewnol felly roedd yn wariant cylchol; mae Caerdydd bellach hefyd yn gwaith rhywfaint o waith i Gasnewydd a Bro Morgannwg. Ychwanegodd yr Aelod Cabinet nad yw llawer o bobl yn sylweddoli pa wasanaethau y gall Cyngor Caerdydd eu cynnig a bod gwaith i'w wneud ar wella hysbysebu a marchnata.

  Gofynnodd yr Aelodau pa farchnata oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd a dywedwyd wrthynt ei fod yn cael ei ailweithio, roedd y cynnig yn cael ei ail-frandio ac roedd costau a rheolau cyllideb yn cael eu harchwilo. Mae angen i'r cynnig fod yn iawn i gwsmeriaid, wrth symud ymlaen, byddai Apps a gwefannau'n cael eu defnyddio'n fwy yn ogystal â'r cyhoeddiad arferol o Ein Caerdydd. Mae uned hysbysebu newydd o fewn Datblygu Economaidd a fyddai'n cael ei defnyddio ac roedd timau dylunio da yn y Cyngor; mae cyngor hefyd wedi'i dderbyn gan People 2.

- Gofynnodd yr Aelodau a ragwelwyd y byddai unrhyw ddatblygiad preswyl newydd yn cael ei feddiannu eleni ac os felly oes gan y Cyngor y capasiti i wasanaethu'r rhain. Esboniodd swyddogion fod ceisiadau twf ar sail data gan ddemograffig cynllunwyr; mae'r Cyngor yn cael gwybod yn gyflym pan fo pobl yn symud i mewn i eiddo ac mae cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith.

- Gofynnodd yr Aelodau a fyddai'r grant refeniw o 6.7% yn cael ei gynnal ar gyfer yr ychydig o flynyddoedd nesaf; esboniodd swyddogion fod buddsoddiad wedi bod yn y Bwrdd Gweinidogol a chynigiwyd bod hyn yn dod yn rhan o'r grant refeniw unigol. Roedd trafodaethau ar hyn ar y gweill; yn 2018/19 byddai'n rhan o'r prif RSG, ni feddyliodd swyddogion y byddai 6.7% y flwyddyn yn gynaliadwy gyda chynnydd mewn targedau ailgylchu.

  Dywedodd yr Aelod Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau ailgylchu ar gyfer Caerdydd sy'n uwch na gweddill Cymru, bwriad y grant oedd helpu gyda'r targedau hynny; ychwanegodd y byddai'n cyd-gysylltu'n agos gyda CLLLC i'w cyflawni.

- Gofynnodd yr Aelodau am gostau Casgliad Eitem Swmpus a chost bagiau Gwyn a Choch. Nid oes gan swyddogion y costau hyn wrth law ond nodon nhw fod y cwestiwn hwn wedi'i ateb mewn cyfarfod y Cyngor yn ddiweddar fel y byddai gwybodaeth yn cael ei hanfon ymlaen. Ychwanegodd swyddogion eu bod am i Gasgliad Eitem Swmpus fod yn gost-niwtral.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

66 : UNRHYW FATER ARALL

Dim i'w ystyried.

67 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Rhoddwyd gwybod i aelodau y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd yn cael ei gynnal ar 7 Mawrth 2017.